

## ATODLEN 2

(a gyflwynir gan adran 17)

### MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

#### *Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (Leasehold Reform, Housing and Urban Development Act 1993 (c. 28))*

- 1 Ym mharagraff 1(2) o Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 (caffael buddiannau gan awdurdodau lleol)—
- (a) ym mharagraff (ba), yn lle “sections 9 and” rhodder “section”;
  - (b) ym mharagraff (c), hepgorer “and section 81 of that Act (certain subsequent disposals); and”.

#### *Deddf Tai 1996 (Housing Act 1996 (c. 52))*

- 2 Mae Deddf 1996 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 3 Yn adran 8 (pŵer landlord cymdeithasol cofrestredig i waredu tir), yn is-adran (3), yn lle “(control by Welsh Ministers of land transactions)” rhodder “(notification to Welsh Ministers of disposal of land)”.
- 4 Yn y croesbennawd mewn llythrennau italig cyn adran 9, yn lle “Control by Welsh Ministers of” rhodder “Requirements relating to”.
- 5 Hefgorer adran 10 (gwarediadau nad yw’n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer).
- 6 Yn adran 11 (cyfamod i ad-dalu disgownt wrth waredu), yn is-adran (1)—
- (a) hepgorer “, in accordance with a consent given by the Welsh Ministers under section 9,”;
  - (b) hepgorer “and the consent does not provide otherwise,”.
- 7 Yn adran 12A (hawl i landlord cymdeithasol cofrestredig gael cynnig cyntaf), yn is-adran (1)—
- (a) hepgorer “, in accordance with a consent given by the Welsh Ministers under section 9, “;
  - (b) hepgorer “and the consent does not provide otherwise,”.
- 8 Yn adran 13 (cyfyngiad ar waredu tai mewn Parciau Cenedlaethol etc.), yn is-adran (1), hepgorer “, in accordance with a consent given by the Welsh Ministers under section 9,”.
- 9 Yn adran 16 (hawl tenant i gaffael annedd), yn is-adran (2)(b), yn lle “(see section 25)” rhodder “maintained under this Act prior to the coming into force of section 15 of the Regulation of Registered Social Landlords (Wales) Act 2018”.
- 10 Yn adran 36 (canllawiau ynghylch rheoli tai yn Lloegr), hepgorer is-adran (7).
- 11 Yn adran 42 (moratoriwm ar waredu tir), yn lle is-adran (3) rhodder—
- “(3) Consent is not required under this section for—
- (a) a letting of land under an assured tenancy or an assured agricultural occupancy, or what would be an assured tenancy or an assured agricultural occupancy but for any of paragraphs 4 to 8, or paragraph 12(1)(h), or any of paragraphs 12ZA to 12B, of Schedule 1 to the Housing Act 1988;

- (b) a letting of land under a secure tenancy or what would be a secure tenancy but for any of paragraphs 2 to 12 of Schedule 1 to the Housing Act 1985;
  - (c) a disposal under Part 5 of the Housing Act 1985 (the right to buy) or under the right conferred by section 16 (the right to acquire).”
- 12 Yn adran 52 (darpariaethau cyffredinol ynghylch gorchmynion), yn is-adran (1), ar ôl “section 2” mewnosoder “7J”.
- 13 Yn adran 63, yn y man priodol, mewnosoder ““notify” means notify in writing;”.
- 14 Yn Atodlen 1 (landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, rheoleiddio), ym mharagraff 25, yn is-baragraff (1)(a), hepgorer “for misconduct or mismanagement”.
- 15 Yn Atodlen 1, ym mharagraff 28—
  - (a) yn is-baragraff (4)(b), hepgorer “in connection with misconduct or mismanagement”;
  - (b) yn is-baragraff (4)(c), hepgorer “in connection with misconduct or mismanagement”.